# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 2il o Orffennaf 2015 am 7.30 pm yn Neuadd Ciliau Aeron

Yn bresennol: Y Cynghorydd Gwyndaf Morgan (Cadeirydd), y Cynghorwyr Robert Davies, Dai Evans, Helen Evans, Arwel Jones, Gwyn Jones, John Emrys Jones a John Lumley.

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Aneurin Roberts ac Iwan Thomas am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Datgelu Buddiannau Personol a Rhai Sy'n Rhagfarnu

Fe fu i'r Cynghorydd John Lumley ddatgelu buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn y mater y cyfeirir ato yng nghofnod 8 a) ii) isod.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

PENDERFYNWYD cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Fehefin 2015.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

Cofnod 4 – Mynwent Cilcennin. Rhannwyd cynllun o'r estyniad arfaethedig a baratowyd gan y Cynghorydd Iwan Thomas. Cytunwyd gofyn i'r Cynghorydd John Emrys Jones gyflwyno'r cais yn anffurfiol i Awdurdodau'r Eglwys yn y lle cyntaf a thrafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Cofnod 4 – Llwybr Troed Tirbach - Bethlehem. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Arwel Jones yn trafod y mater ymhellach gyda'r perchennog tir cyn ei drafod ymhellach gan y Cyngor.

5 Polisi Trwyddedu Cyngor Sir Ceredigion

Nodwyd cynnwys y ddogfen nad oedd yn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r Polisi presennol.

6 Ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion ar Gyllideb 2015-16

Nodwyd bod y Clerc wedi dosbarthu'r neges e-bost oedd yn galluogi pobl i wneud sylwadau ar-lein ar godiadau posib mewn ffioedd a thaliadau.

7 Cau ffyrdd Dros Dro

Nodwyd y byddai'r canlynol ar gau ar gyfer gwaith gan BT:-

C1131 Newbridge, Ciliau Aeron 6-7 Gorffennaf

C1047 Cilcennin 8-10 Gorffennaf

8 <u>Taliadau</u>

a) Cytunwyd gwneud y taliadau canlynol:-

| | |
|---|---|
| i) Cyflog y Clerc: Ebrill-Mai-Mehefin | £248 |
| HMRC (PAYE) | £62 |
| ii) Honorarium i Ms Anwen Lumley am dri mis o waith gweinyddol | £240 |
| iii) Neuadd Ciliau Aeron (Cyfarfodydd 2015) | £70 |
| Neuadd Cilcennin (Cyfarfodydd 2015) | £70 |

b) gofynnwyd i'r Clerc gwneud ymholiadau am gais a oedd, mae'n debyg, wedi'i wneud gan Eisteddfod Ciliau Aeron am nawdd yn 2015.

9 <u>Cyfrifon Blynyddol 2014-15</u>

Adroddodd y Clerc fod Cyfrifon Blynyddol 2014-15 wedi'u cymeradwyo gan yr archwiliwr mewnol, Mr Alun Jenkins, ac fe gytunwyd eu hanfon at yr archwilwyr allanol.

10 <u>Unrhyw Fater Arall</u>

Cyfeiriodd y Cynghorydd John Lumley at yr adolygiad presennol i'r gwasanaeth arlwyo a'r posibilrwydd y gallai'r bwyd ar gyfer Ysgol Gynradd Ciliau Parc gael ei baratoi yn Ysgol Gynradd Felinfach a'I gludo yno.

<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau 3ydd o Fedi 2015</u>